I blant Casmael, rydym yn gyffrous i feddwl bydd Ysgol Casmael yn ail agor ar Ddydd Llun. Rydym yn edrych ymlaen at weld pob un ac i rhannu eich holl newyddion.

Fe fydd yr Ysgol yn edrych tamaid yn wahanol. Fe fydd eich athrawon a'ch ffrindiau yno, ond fe fydd llai o blant yn yr Ysgol.

Fe fydd llai o ddodrefn yn y dosbarthiadau, efallai bydd pethau'n edrych tamaid yn rhyfedd i ddechrau. Mae angen mwy o le i ni symud o gwmpas yn ddiogel.

Fe fyddwn yn mynd allan yn aml i weithio, i ddysgu, i chwarae. Fe fyddwn yn gallu chwarae gemau fel sgipio a phêl droed.

Er mwyn cadw'n ddiogel ac yn lân fe fydd angen golchi'n dwylo a defnyddio hylif diheintydd sawl gwaith y dydd.

Fe fydd rhaid i bob un i aros 2 medr i ffwrdd o'u ffrindiau a'r athrawon er mwyn cadw'n ddiogel.



Os nad ydych yn teimlo'n hwylus fe fydd angen dweud wrth oedolyn. Fe fydd yr oedolion yn edrych ar eich ôl nes bod rhywun yn dod i'ch casglu o'r Ysgol.

Fe fyddwch yn cael y cyfle i ddod i'r Ysgol ychydig o weithiau yn unig, felly,fe fydd dal angen i chi parhau gyda'r dysgu o bell, sef gwneud tasgau gartref.

Fe fydd plant blwyddyn 6 yn cael y cyfle i ymweld ag Ysgol Bro Gwaun a chwrdd â'u hathrawon newydd.



Fe fydd gennych deimladau cymysg am ddod 'nôl i'r Ysgol. Efallai r ydych yn teimlo'n gyffrous, hapus, drist, neu efallai rydych yn poeni am ddod 'nôl. Fe fyddwn yn cael digon o hwyl ac yn trefnu nifer o weithgareddau hwylus a chyffrous.
Fe fydd pob diwrnod yn brysur!